| Crynodeb Diwygiedig Pwysau Costau | Disgrifiad | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 | Categori Twf | Swyddog Arweiniol | Goblygiadau | Posibiliadau Amgen | Cywferth ag Amser Llawn Ychwanegol | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £000au | £000au | £000au | £000au | £000au | | | | | | |
| **Cyfarwyddiaeth: Dysgu a Sgiliau** | | | | | | | | | | | | |
| **Ysgolion Dirprwyedig** | | | | | | | | | | | | |
| **Dysgu a Sgiliau** | **Cynnydd demograffig mewn ysgolion Prif Ffrwd -** I ateb cost net y cynnydd yn y disgyblion ysgolion prif ffrwd. Mae'r cyfrifiad hwn yn seiliedig ar y cynnydd yn nifer y disgyblion o gyfrifiad CYBLD Ionawr 2022 i gyfrifiad CYBLD Ionawr 2023. Mae angen twf o £996k yn y sector uwchradd, wedi'i wrthbwyso gan ostyngiad o £604k yn y sector cynradd. | **392** | **392** | **300** | **300** | **300** | **Demograffeg** | Trevor Baker | Pwysau ar gyllideb ysgolion prif ffrwd i dalu cost cynnydd mewn disgyblion gan arwain at doriad mewn termau real fesul disgybl os na ddyfernir twf | | | Cyfrifwyd y pwysau cost yma drwy gymhwyso'r cynnydd yn nifer y disgyblion yn unol â data CYBLD rhwng Ionawr 2022 a Ionawr 2023 i werth AGS 2023/24 ar gyfer ysgolion. Mae cynnydd yn y twf demograffig uwchradd o £996k a gostyngiad o £604k yn y sector cynradd. Y sefyllfa net ar gyfer 2024/25 yw £392k. Amcangyfrifon yn unig yw'r ffigurau ar gyfer 2025/26 a thu hwnt a bydd angen eu hailgyfrifo bob blwyddyn. |
| **Dysgu a Sgiliau** | **Cynnydd demograffig yn y disgyblion sydd angen eu lleoli yn ysgol arbennig Ysgol Y Deri** - Mae'r cyfrifiad hwn yn seiliedig ar 47 disgybl ychwanegol ym mis Medi 2024 a 40 o ddisgyblion ychwanegol bob Medi wedi hynny ar ôl cost gyfartalog lleoliad yn Y Deri | **1,331** | **1,241** | **1,241** | **1,241** | **1,241** | **Demograffeg** | Liz Jones/Trevor Baker | Pwysau ar gyllideb ysgolion arbennig i ddiwallu twf demograffig, a chymhlethdodau cynyddol o ran anghenion. Mae gofyniad statudol i ddiwallu anghenion disgyblion sydd angen lleoliad ysgol arbennig a goblygiadau o ran ariannu offer arbenigol a staffio yn sgil hynny. Cynnydd posibl mewn tribiwnlysoedd oherwydd na ellir diwallu'r angen yn llawn neu ddarparu ar gyfer disgyblion ychwanegol. Goblygiadau iechyd a diogelwch oherwydd niferoedd gorlawn a chymarebau amhriodol o ran staff i ddisgyblion. | | | cyfrifiad yn seiliedig ar gost gyfartalog lleoliad yn y Deri ar gyfer 47 o ddisgyblion ychwanegol ym mis Medi 2024, a 40 o ddisgyblion ychwanegol bob mis Medi wedi hynny |
| **Dysgu a Sgiliau** | **Darpariaeth Loeren Awtistiaeth Uwchradd** - Cynnydd yn y galw am leoliadau yn y Ddarpariaeth Loeren Awtistiaeth Uwchradd sy'n adlewyrchu mwy o angen. | **165** | **-** | **-** | **-** | **-** | **Pwysau** | Liz Jones | Defnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau'r cyngor i sicrhau bod disgyblion yn aros o fewn eu cymuned. Pe na bai'r cyllid yn cael ei ddyfarnu bydd mwy o bwysau yn y galw am leoedd naill ai yn Ysgol y Deri neu leoliadau y Tu Allan i'r Sir. Byddai hyn yn arwain at gynyddu nifer y tribiwnlysoedd. | Opsiwn amgen i osod mwy o ddisgyblion y tu allan i'r Sir a fyddai'n costio llawer mwy. Mae diffyg sylweddol hefyd o leoliadau y tu allan i'r Sir ar gael. Gallai hyn arwain at anallu'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau statudol. | 6 | |
| **Dysgu a Sgiliau** | **Costau Ynni mewn ysgolion -** Roedd cyllideb 2023/24 a ddirprwywyd i ysgolion yn cynnwys twf ar gyfer costau ynni o £2.3M ond ariannwyd hyn yn rhannol gan £1.2M o gronfeydd wrth gefn untro gan adael y cynnydd yn y gyllideb yn weddill ar gyfer 2024/25 ar £1.1M. Nid yw'n hysbys beth fydd y pwysau ynni ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25, ac felly a fydd yr £1.1M ar gyfer 2024/25 yn ddigonol. Bydd angen i'r tîm ynni ddarparu amcangyfrifon cywir i gael amcangyfrif pwysau cost. | **1,200** | | | | | **Pwysau** | Trevor Baker | Pwysau ar gyllidebau ysgolion i dalu costau ynni uwch | | | Bydd angen i'r tîm ynni ddarparu amcangyfrifon cywir i gael amcangyfrif o bwysau cost. |
| **Dysgu a Sgiliau** | **Ehangu canolfan Adnoddau Cynradd Hafan,** mae cynnydd yn y galw am leoliadau yng nghanolfan adnoddau'r Hafan yn Ysgol Gynradd Gladstone sy'n darparu ar gyfer disgyblion ag anghenion iechyd meddwl cymdeithasol ac emosiynol cymhleth, mae traean o'r disgyblion hyn yn rai sy'n derbyn gofal. Bu twf esbonyddol yn yr angen i gyfeirio disgyblion at y math hwn o ddarpariaeth ac angen i gynyddu o 2 ddosbarth i 3. Mae'r trydydd dosbarth eisoes wedi'i sefydlu i agor o fis Medi 2023, a gaiff ei ariannu'n untro gan gronfeydd wrth gefn ond mae angen parhaus hirdymor i gynnal y ddarpariaeth hon. O ystyried y cynnydd yn y galw, mae cynnal y niferoedd presennol yn ofyniad sylfaenol. | **154** | **-** | **-** | **-** | **-** | **Pwysau** | Liz Jones | Heb leoliadau ychwanegol ar gael, bydd cynnydd yn nifer y disgyblion sydd angen darpariaeth arbenigol y tu allan i'r sir, a fydd yn llawer mwy costus. Mae yna hefyd ddiffyg lleoliadau amgen addas ar gael. Mae'r rhain yn ddisgyblion hynod o agored i niwed, rhai ohonynt yn derbyn gofal gan yr awdurdod, ac mae cynnydd yn dibynnu'n gyntaf ar gymorth angenrheidiol a byddai gomedd hynny'n arwain at golli unrhyw enillion ar lefel disgyblion unigol. Yn y dyfodol ni fydd y cyngor bellach yn gallu lleoli disgyblion mewn cyfleusterau gofal annibynnol y tu allan i'r sir, felly fel cyngor mae'n rhaid i ni ddarparu darpariaeth addysg briodol. | Gellid gosod disgyblion y tu allan i'r sir ar gyfer eu haddysg ond nid yw hyn yn caniatáu iddynt gael eu cefnogi'n briodol yn eu cymunedau. Byddai lleoliadau y tu allan i'r Sir yn gyffredinol yn costio mwy na'r gyllideb canolfan adnoddau fesul disgybl. | **4** | |
| **Dysgu a Sgiliau** | **Canolfan adnoddau Uwchradd Horizon -** Ar hyn o bryd mae dau ddosbarth o fewn cyfleuster Horizon ar gyfer disgyblion ag anghenion iechyd meddwl cymdeithasol ac emosiynol cymhleth nad ydynt o ganlyniad wedi gallu cael mynediad at addysg prif ffrwd am o leiaf ddau dymor. Oherwydd y galw cynyddol mae angen cynyddu'r ddarpariaeth hon i dri dosbarth o fis Medi 2023. Bydd cost y trydydd dosbarth am y saith mis o Fedi 23 yn cael ei ariannu'n untro gan gronfeydd wrth gefn, ond mae gofyniad parhaus i ariannu'r ddarpariaeth hon yn yr hirdymor. | **200** | | | | | **Pwysau** | Liz Jones | Heb ehangu'r cyfleuster hwn bydd nifer o ddisgyblion a fydd allan o addysg a fydd yn torri dyletswydd statudol y Cyngor. Mae'r tebygolrwydd y bydd y disgyblion hyn yn dod yn NEET heb gymwysterau yn uchel sy'n effeithio'n sylweddol ar gyfleoedd bywyd grŵp o bobl ifanc agored i niwed ac sy'n effeithio ymhellach ar iechyd meddwl gan y byddant yn ynysig. | | **5** | |

| Crynodeb Diwygiedig Pwysau Costau | Disgrifiad | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 | Categori Twf | Swyddog Arweiniol | Goblygiadau | Posibiliadau Amgen | Cyfwerth ag Amser Llawn Ychwanegol | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £000au | £000au | £000au | £000au | £000au | | | | | | |
| **Dysgu a Sgiliau** | **Canolfan Adnoddau Gwaun Y Nant -** Er mwyn ateb y galw cynyddol ar gyfer disgyblion ag awtistiaeth a gorbryder yn y sector cynradd, a lleihau nifer y disgyblion sydd angen lleoliad arbenigol yn Ysgol y Deri, cynigir datblygu canolfan adnoddau cyfrwng Cymraeg newydd. Mae angen dybryd am ganolfan adnoddau Cymraeg yn ardal y Barri, sy'n ofynnol gan yr ALl i gyflawni'r ymrwymiad a wnaed gan y Cabinet o fewn y CSGA deng mlynedd. Mae dyletswydd hefyd i ddarparu addysg ddwyieithog i blant ag ADY o dan y Ddeddf ADY, a bydd yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth bellach gyda Bil Addysg Gymraeg sydd ar y gweill. Bydd y cyfleuster hwn yn agor ym mis Ionawr 2024, a bydd yn cael ei ariannu am y tri mis cyntaf yn untro o gronfeydd wrth gefn. Disgwylir i'r ail ddosbarth agor ym mis Medi 2024. | **244** | **162** | | | | **Pwysau** | Liz Jones | Heb y ddarpariaeth hon, ni fydd y Cyngor yn darparu mynediad cydradd i ddarpariaeth ADY ar gyfer dysgwyr sydd mewn Addysg Gymraeg. Bydd y Cyngor yn torri'r ymrwymiad a wnaed yn y CSGA, a'i ddyletswyddau o dan y Ddeddf ADY a Mesur y Gymraeg. | | **4** | |
| **Dysgu a Sgiliau** | **Anghenion dysgu ychwanegol mewn ysgolion prif ffrwd -** er mwyn cadw disgyblion yn y sector prif ffrwd a lleihau'r pwysau ar leoliadau adnoddau arbenigol ac Ysgol Y Deri. Mae gofyn i ysgolion prif ffrwd ddarparu ymyriadau lleol heb yr adnoddau angenrheidiol i'w cyflawni. | **400** | | | | | **Pwysau** | Liz Jones | Pwysau ar gyllidebau prif ffrwd i ddiwallu anghenion disgyblion ag ADY gyda nifer anghymesur o uchel o ysgolion nad ydynt eisoes yn gallu mantoli eu cyllidebau. Bydd anallu ysgolion prif ffrwd i ddiwallu anghenion disgyblion ag ADY yn arwain at gynnydd yn y galw am leoliadau arbenigol sydd eisoes dan straen. Mae pryder y bydd hyn yn gwaethygu nifer y disgyblion ar amserlenni byrrach sy'n golygu na fydd disgyblion yn derbyn eu gofyniad addysg statudol. | | | |
| **Dysgu a Sgiliau** | **Canolfan adnoddau ysgol gynradd Holton -** Er mwyn ateb y galw cynyddol ar gyfer disgyblion ag awtistiaeth a gorbryder yn y sector cynradd, a lleihau nifer y disgyblion sydd angen lleoliad arbenigol yn Ysgol y Deri, cynigir datblygu canolfan adnoddau newydd yn ardal y Barri a'i hagor ym mis Medi 2024. Defnyddiwyd cyllid grant cyfalaf Llywodraeth Cymru yn 2222/23 i adnewyddu gofod ystafell ddosbarth nas defnyddiwyd yn Ysgol Gynradd Holton i greu'r amgylchedd sydd ei angen i gynnal y ddarpariaeth arbenigol hon. Cyflwynwyd pwysau cost i ariannu cost refeniw'r ddarpariaeth hon fel rhan o broses pennu cyllideb 2023/24, ond ni ddyfarnwyd y pwysau cost hwn. | **90** | **162** | | | | | | Gofynnwyd am gais am bwysau cost i ariannu'r ddarpariaeth hon fel rhan o broses gosod cyllideb 2023/24 na chafodd ei dyfarnu. Mae hyn wedi arwain at bwysau sylweddol ar ysgolion prif ffrwd i ddiwallu anghenion disgyblion ag ASA. Mewn llawer o achosion nid yw hyn wedi bod yn bosibl sydd wedi arwain at ddisgyblion naill ai'n mynd i Ysgol Y Deri neu ddim yn cael mynediad i addysg. | | | |
| **Dysgu a Sgiliau** | **Cam i Lawr o ran mwy o Gyllideb Prydau Ysgol Am Ddim,** mae'r pwysau negyddol hyn ar gostau yn cydnabod y ffaith y bydd y cynnydd yng nghost darparu prydau ysgol am ddim i ddisgyblion yn lleihau dros y blynyddoedd nesaf yn sgil cael gwared ar amddiffyn wrth bontio i ddisgyblion nad ydynt bellach yn gymwys. Mae'r amcangyfrif o ostyngiad o £100k y flwyddyn o 2024/25 yn cael ei gyfrifo ar hyn o bryd gan y tîm budd-daliadau sydd wedi cydnabod na fydd y gostyngiad hwn yn dechrau tan flwyddyn ariannol 2025/26. | **-** | **- 100** | **- 100** | | | **Pwysau** | Trevor Baker | | | | Caiff y ffigurau eu diwygio - mae Christina Delaney a Vicky Rees yn edrych ar ragamcanu'r gostyngiad mewn PYADd oherwydd diwedd yr amddiffyn wrth bontio. Roedd yr amcangyfrif gwreiddiol a oedd wedi'i gynnwys o fewn y cynllun ariannol tymor canolig wedi ei orbwysleisio. |
| **Ysgolion Dirprwyedig** | | **4,176** | **1,856** | **1,441** | **1,541** | **1,541** | | | | | | |
| **Dysgu a Sgiliau Canolog** | | | | | | | | | | | | |
| **Dysgu a Sgiliau** | **Lleoliadau Anghenion Cymhleth y Tu Allan i'r Sir -** Cynnydd yn y disgyblion sydd angen darpariaeth Anghenion Cymhleth y Tu Allan i'r Sir neu mewn darpariaeth annibynnol. | **200** | **140** | **140** | | | **Pwysau** | Liz Jones | Nid yw'r cyngor yn gallu dod â disgyblion allan o'r lleoliadau hyn a rhaid iddynt gadw at benderfyniadau a wneir gan dribiwnlysoedd. Os na fydd y pwysau cost hwn yn cael ei ddyfarnu bydd y gyllideb Dysgu a Sgiliau yn gorwario | | | |

| Crynodeb Diwygiedig Pwysau Costau | Disgrifiad | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 | Categori Twf | Swyddog Arweiniol | Goblygiadau | Posibiliadau Amgen | Cyfwerth ag Amser Llawn Ychwanegol | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £000au | £000au | £000au | £000au | £000au | | | | | | |
| **Dysgu a Sgiliau** | **Ailstrwythuro'r tîm anghenion cymhleth -** er mwyn cwrdd â gofynion cynyddol oherwydd y diwygiadau ADY ac atal anghytundebau rhag gwaethygu wrth leihau yn rhagweithiol nifer yr achosion tribiwnlys. Byddai hyn yn caniatáu creu dwy swydd newydd, un swydd rheolwr cynorthwyol anghenion Cymhleth ac un swydd uwch weithiwr achos ADY, yn ogystal ag ariannu ailstrwythuro pellach o fewn y tîm. | **140** | | | | | **Pwysau** | Liz Jones | Heb ehangu'r tîm, ni fydd y Cyngor yn gallu cyflawni ei rwymedigaethau statudol o dan y Ddeddf ADY newydd, gan na fyddai modd cadw at amselenni penodedig ar gyfer CDU, gan gynnwys CDUau ar gyfer grwpiau bregus. Bu cynnydd o 700% mewn atgyfeiriadau o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol oherwydd y newidiadau o dan y Ddeddf ADY. Ni fydd y tîm yn gallu ateb galwadau cynyddol o dan y diwygiadau ADY, a allai arwain at gynnydd mewn anghydfodau a thribiwnlysoedd. Mae penderfyniadau achosion tribiwnlys yn gyfreithiol rwymol ac yn hanesyddol yn y Fro mae penderfyniadau o'r fath wedi arwain at gostau sylweddol uwch i'r ALl wrth ariannu darpariaeth ychwanegol neu leoliadau annibynnol. Bu cynnydd dramatig ym maint gwaith tribiwnlysoedd sy'n cynnwys symiau mawr costus o ran amser swyddogion ac amser cyfreithiol ar gyfer pob achos. Mae'r diffyg capasiti o fewn y tîm wedi arwain at gynnydd mewn cwynion swyddogol | | **2.2** | |
| **Dysgu a Sgiliau** | **Gostyngiad mewn Incwm y Tu Allan i'r Sir -** mae incwm gan Awdurdodau Lleol eraill o ran lleoliadau o'r Tu Allan i'r Sir yn Ysgol y Deri yn lleihau bob blwyddyn. Mae llai o lefydd ar gael ar gyfer disgyblion y tu allan i'r sir yn Ysgol Y Deri gan fod angen mwy o leoedd ar ddisgyblion Bro Morgannwg. | **325** | **137** | **183** | **130** | **105** | **Pwysau** | Liz Jones | Bydd cyllideb Dysgu a Sgiliau yn gorwario | | | |
| **Dysgu a Sgiliau** | **Tîm Cyfranogiad Ieuenctid -** cynnal y capasiti lleiaf posibl yn y tîm Ymgysylltu â Phobl Ifanc; ar hyn o bryd ariennir dau aelod o staff o gronfeydd wrth gefn y Gyfarwyddiaeth | **85** | | | | | **Pwysau** | Morwen Hudson | Heb gyllid, ni fyddai'r cyngor yn gallu gwireddu ei ymrwymiad yn y Cynllun Corfforaethol ar gyfer cyfranogiad ymhlith pobl ifanc a'i ymrwymiad yn ei Gynllun Cyflawni blynyddol i "gefnogi niferoedd cynyddol a mwy o amrywiaeth o bobl ifanc i gymryd rhan mewn ystod ehangach o gyfleoedd er mwyn hwyluso tegwch ac amrywiaeth wrth wneud penderfyniadau o fewn y cyngor" (ADP/09). Ar 11 Hydref 2021, cytunodd y cabinet i'r argymhellion mewn adroddiad a gyflwynwyd (adolygiad o'r Cabinet Ieuenctid a strwythurau cyfranogi) a'i ddiben oedd ystyried cynigion ar gyfer cyfeiriad y Cabinet Ieuenctid yn y dyfodol er mwyn cynyddu cyfranogiad pobl ifanc. Nododd yr adroddiad y bydd "angen hyd at dair rôl ychwanegol i gefnogi datblygiad y prosiect" a bydd "aelodau staff ymroddedig yn hanfodol wrth gefnogi datblygiad y grwpiau hyn". | | **2** | |

| Crynodeb Diwygiedig Pwysau Costau | Disgrifiad | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 | Categori Twf | Swyddog Arweiniol | Goblygiadau | Posibiliadau Amgen | Cyfwerth ag Amser Llawn Ychwanegol | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £000au | £000au | £000au | £000au | £000au | | | | | | |
| **Dysgu a Sgiliau** | **Swyddog Perfformiad -** Mae swydd bresennol y Swyddog Perfformiad yn cael ei hariannu o gronfeydd wrth gefn y Gyfarwyddiaeth, mae angen cadw'r swydd hon ar sail hirdymor**.** | 50 | | | | | **Pwysau** | Trevor Baker | Methu â bodloni safonau perfformiad ac amserlenni adrodd y Cyngor a hefyd rheoli blaenoriaethau hunanwerthuso a gwella ar draws y gyfarwyddiaeth dysgu a sgiliau. Effaith sylweddol o ran paratoadau a chymorth ar gyfer arolygiad Estyn sydd ar y gweill ar gyfer yr Awdurdod Lleol, ac arolygiadau/partneriaethau nad ydynt yn rai ysgolion gan gynnwys canlyniadau diweddar arolygiadau Dysgu Oedolion yn y Gymuned/Dysgu Cymraeg. Mae gan y rôl hon gyfraniad sylweddol i'r prosesau a'r mecanweithiau newid busnes mewnol ar gyfer adrodd/rheoli data ar draws y gyfarwyddiaeth sy'n ofynnol o ran cynlluniau Cyflawni Blynyddol /Hunanasesiad /Corfforaethol y cyngor a strategaethau ategol eraill y cyngor ond hefyd wrth fodloni gofynion adrodd deddfwriaethol ar gyfer dysgu a sgiliau a galluogi cyfleoedd ar gyfer effeithlonrwydd ac arbedion pellach gyda gwaith datblygu parhaus model gweithredu'r gyfarwyddiaeth yng ngoleuni pwysau ariannol ac AD yn awr ac yn y dyfodol. | **Cefnogaeth ymroddedig yn gorfforaethol** | 1 | |
| **Dysgu a Sgiliau** | **Swyddog Cymraeg mewn Addysg -** Mae'r Swyddog Cymraeg mewn Addysg presennol yn cael ei ariannu o gronfeydd wrth gefn y Gyfarwyddiaeth, mae angen cadw'r swydd hon ar sail hirdymor er mwyn cydymffurfio â CSGA'r Cyngor a'r Bil Addysg Gymraeg sydd ar y gweill. | 53 | | | | | **Pwysau** | Trevor Baker | Methu bodloni ymrwymiadau a gyhoeddwyd o fewn CSGA 10 mlynedd y Cyngor, a newidiadau sydd i ddod i ddeddfwriaeth wrth gyflwyno Bil Addysg Gymraeg, gan gynnwys gofynion newydd sy'n gysylltiedig â darpariaeth ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg a disgyblion ag ADY sy'n agored i niwed. | **Cefnogaeth benodol yn gorfforaethol/mwy o integreiddio â gofynion / ystyriaethau o ran y Gymraeg.** | 1 | |
| **Dysgu a Sgiliau** | **Ehangu tîm staffio TGCh a Data - Angen twf cyllideb i ariannu chwe swydd dros dro yn barhaol o fewn y** Tîm TGCh a Data sydd ar hyn o bryd yn cael eu hariannu dros dro gan gronfeydd wrth gefn untro. Er mwyn diwallu anghenion y gwasanaeth, crëwyd chwe swydd dros dro sy'n cwmpasu datblygiad MIS (systemau gwybodaeth reoli), cefnogaeth i ysgolion a dadansoddi data. Mae pedwar unigolyn eisoes yn eu swydd yn gwneud y swyddi hyn ar gontractau dros dro. Teitlau'r swyddi yw: 2 Swyddog Datblygu MIS, 1 Swyddog Cymorth Llinell Gyntaf, 1 Uwch Ddadansoddwr Data, 1 Arweinydd Tîm Data ac 1 Arweinydd Tîm Technegol Ysgolion. | 267 | | | | | **Pwysau** | Trevor Baker | Ddim yn gynaliadwy i barhau i ariannu'r swyddi hyn o gronfeydd wrth gefn y Gyfarwyddiaeth. Mae'r swyddi'n ofynnol i ddiwallu anghenion y gwasanaeth, ac uchelgeisiau cyhoeddedig y Cyngor ynghylch ei strategaeth ddigidol a'i flaenoriaethau data o ran Dysgu a Sgiliau, gan gynnwys y gwaith o ran presenoldeb mewn ysgolion, cynllunio ymyriadau, cynnydd ac adrodd ar gyfer grwpiau agored i niwed (gan gynnwys gofynion newydd ynghylch addysg ddewisol yn y cartref) trwy swyddogaethau adrodd a chynnal a chadw Capita ONE a PowerBI/SSRS. Mae angen ystyried y newidiadau sylweddol sydd i ddod o ran defnyddio ESS, sy'n cael ei adolygu'n genedlaethol ar hyn o bryd, ac efallai y bydd system rheoli gwybodaeth newydd i fyfyrwyr yn cael ei threialu ar hyn o bryd (Arbour/Bromcom). Mae defnyddio data yn atal costau yn y dyfodol drwy fesur a monitro ymyriadau cynharach, a gofynion ad-hoc rhanddeiliaid gan gynnwys Llywodraeth Cymru ar berfformiad addysg. | **Mwy o integreiddio - a phwysoli cyfartal - gyda gwasanaethau TG / Data corfforaethol. Byddai angen ailedrych ac ymgynghori ar y model gweithredu arfaethedig presennol nad yw'n cynnwys gwasanaethau TGCh addysg. Dylai ail-lunio'r gyllideb ar gyfer gwasanaethau TGCh corfforaethol gynnwys rhywfaint o ddirprwyo cyllid i gefnogi gwasanaethau cyfarwyddiaeth sy'n gysylltiedig â TGCh/MIS/Data, o ystyried y gefnogaeth i 3500 o staff a chynnal a chadw / rheoli dros 10,000 o ddyfeisiau mewn ysgolion yn dilyn rhaglen Hwb.** | 6 | |
| **Dysgu a Sgiliau** | **Staffio Pafiliwn Penarth -** Rheolwr Pafiliwn | 60 | | | | | **Pwysau** | | Gorwariant posibl yn y gyllideb gan na all yr incwm a gynhyrchir ariannu holl gostau rhedeg y pafiliwn yn sgil dros £70k mewn costau glanhau/ynni. Mae'r Pafiliwn yn gweithredu 7 diwrnod yr wythnos a hyd at 16 awr y dydd. Byddai partneriaethau gyda'r BBC, Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, Artistiaid, sefydliadau lleol, darparwyr sinema a chaffi yn dod i ben, gyda sgil-effaith ar nifer o swyddi. Byddai cynlluniau a rhaglenni cymunedol (dros 500 hyd yn hyn) yn dod i ben. Difrod sylweddol i enw da. | **Nid yw'r Pafiliwn yn tynnu unrhyw gyllideb gan y cyngor ar gyfer ei weithrediad ac mae'r incwm presennol dros £115kpa i dalu costau gweithredu.** | 2 | |
| **Dysgu a Sgiliau** | **Effaith refeniw Cymunedau Dysgu Cynaliadwy ychwanegol SRG** | 80 | 140 | 115 | 187 | - | **Ariannu Cyfalaf** | | | | | |
| **Dysgu a Sgiliau** | **Effaith refeniw Cymunedau Dysgu Cynaliadwy ychwanegol Y Bont-faen** | - | 50 | 109 | - | - | **Ariannu Cyfalaf** | | | | | |
| **Dysgu a Sgiliau Canolog** | **CYFANSWM Dysgu a Sgiliau Canolog** | **1,260** | **467** | **547** | **317** | **105** | | | | | | |

| Crynodeb Diwygiedig Pwysau Costau | Disgrifiad | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 | Categori Twf | Swyddog Arweiniol | Goblygiadau | Posibiliadau Amgen | Cyfwerth ag Amser Llawn Ychwanegol | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £000au | £000au | £000au | £000au | £000au | | | | | | |
| Cyfarwyddiaeth: Gwasanaethau Cymdeithasol | Cyfanswm Terfynol Dysgu a Sgiliau | 5,436 | 2,323 | 1,988 | 1,858 | 1,646 | | | | | | |